# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR IAITH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 16EG IONAWR, 2020**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 09/01/20)

# PWYLLGOR IAITH

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (8)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Aled Ll. Evans
Elin Walker Jones
Elfed Williams
Alan Jones Evans
Judith Mary Humphreys
Olaf Cai Larsen
Charles Wyn Jones

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Elwyn Jones
Kevin Morris Jones
Eirwyn Williams
Eric M. Jones
John Pughe Roberts

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Alwyn Gruffydd

## Annibynnol Unedig Gwynedd (1)

Y Cynghorydd

Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelod arall a wahoddir

Y Cynghorydd Nia Jeffreys, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol– Y Gymraeg

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION** 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd, 2019 fel rhai cywir (ynghlwm).

**5. COMISIYNYDD Y GYMRAEG**

Derbyn cyflwyniad gan Gomisiynydd y Gymraeg ar ei waith.

**6. ADRODDIAD ADOLYGIAD BLYNYDDOL CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (CSGA)** 10 - 21

Ystyried adroddiad y Swyddog Gwasanaethau Corfforaethol Addysg (ynghlwm).

**7. ADRODDIAD AELOD CABINET** 22 - 24

Ystyried adroddiad yr Aelod Cabinet (ynghlwm).

**8. IECHYD MEDDWL A'R IAITH GYMRAEG**

Derbyn cyflwyniad gan y Swyddog Cefnogi Busnes.

**9. TREFNIADAU GWEITHIO MEWN SEFYLLFA DDWYIEITHOG - TIMAU ADNODDAU CYMUNEDOL** 25 - 30

Ystyried adroddiad yr Arweinydd Rhaglen Trawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol (Gwynedd a Môn) (ynghlwm).

**10. ADRODDIAD CANMOLIAETH A CHWYNION** 31 - 34

Ystyried adroddiad yr Ymgynghorydd Iaith (ynghlwm).

# PWYLLGOR IAITH DYDD IAU, 7 TACHWEDD 2019

**YN BRESENNOL:** Elin Walker Jones (Cadeirydd)
Cai Larsen (Is-gadeirydd).

**Y CYNGHORWYR:** Elwyn Edwards, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Judith Humphreys, Charles Wyn Jones, Elwyn Jones, Eric M Jones, Kevin Morris Jones, John Pughe Roberts, Eirwyn Williams ac Elfed Williams,

**SWYDDOGION:** Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Gwenllïan Mair Williams (Ymgynghorydd Iaith), Siôn Elwyn Hughes (Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg), Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**ERAILL A WAHODDWYD:** Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Aelod Cabinet Cefnogaeth Corfforaethol), Edgar Wyn Owen (Cadeirydd y Cyngor).

Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen Annwen Davies (Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig)

Mewn perthynas ag eitem 6 ar y rhaglen Amanda Davies (Rheolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Aled Evans.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATERION BRYS

Ni dderbyniwyd unrhyw faterion brys.

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 9fed o Orffennaf 2019 fel rhai cywir yn ddarostyngedig i gywiro penderfyniad ar eitem 6 (cofnodion cyfarfod 1 Mai 2019)

*'Hunaniaith - Menter Iaith Gwynedd - (Targedu Pobl Ifanc oedran 15+'*, ynglŷn *â llythyr i gymryd camau pellach i ennyn diddordeb ac ymrwymiad tiwtoriaid Grŵp Llandrillo Menai Ymatebodd y Swyddog Datblygu Iaith yn y Gweithle, ei bod wedi*

*gyrru llythyr i'r Grŵp, ond nad oedd adborth wedi ei dderbyn. Penderfynwyd yn y pwyllgor diwethaf bod aelod o'r pwyllgor am ysgrifennu hefyd, nid yw hyn wedi ei gyflawni'*

Nodwyd y dylai'r cofnod nodi mai'r Pwyllgor fel endid a ddylai fod hefyd yn ysgrifennu llythyr ac nid un aelod o'r Pwyllgor. Awgrymwyd y dylai'r llythyr a anfonwyd gael ei adolygu yn y cyfarfod nesaf.

Cadarnhawyd bod y Comisiynydd Iaith wedi derbyn gwahoddiad i fynychu'r Pwyllgor.

## 5. CYNLLUN ARFOR

Derbyniwyd adroddiad a chyflwyniad ar lafar gan Rheolwr Rhaglen Datblygu Gwynedd Wledig yn rhoi diweddariad ar raglen Arfor. Yn dilyn cytundeb cyllidebol rhwng Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru, yn Chwefror 2019 cadarnhaodd Gweinidog yr Economi, Ken Skates AC, fod £2 filiwn o gyllideb ar gael i Gynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i dreialu dulliau arloesol o gefnogi'r economi yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Nodwyd fod yr arian ar gael hyd at ddiwedd 2020/21 gyda £466,250 i'w fuddsoddi yng Ngwynedd ar weithgareddau fyddai yn arwain at greu swyddi fyddai'n cynnal yr iaith yn ein cymunedau.
Adroddwyd bod dau brosiect trawsffiniol wedi eu sefydlu; Cynllun Strategol / Gwerthuso a Phrosiect Bwrlwm Busnes. Ategwyd bod y Cynllun Strategol yn edrych ar brosiectau unigol ar draws y Sir ac wrthi yn sefydlu cynllun busnes i'w gyflwyno. Mynegwyd bod Bwrlwm Busnes wedi dylunio pecyn croeso yn annog busnesau i weithio drwy'r Gymraeg. Nodwyd bod bwriad comisiynu cwmni i edrych ar ddeunydd digidol ar draws y pedair Sir i geisio gwybodaeth ac adnabod a rhannu ymarfer da.
Cyfeiriwyd at Grŵp Llywio Arfor sydd yn arwain y gwaith yng Ngwynedd ac sydd wedi adnabod pecyn o brosiectau arloesol i'w treialu dros y cyfnod sydd yn cyd-fynd a meini prawf y rhaglen. Ategwyd bod yr Uned Iaith wedi bod yn rhan o'r grŵp ers y dechrau. Nodwyd bod nifer o brosiectau cyffrous wedi eu sefydlu gyda holiadur ieithyddol wedi ei lunio i gofnodi safon defnyddwyr / cefnogwyr prosiectau fel bod modd mesur effaith Arfor.
Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod cyfnod o ddwy flynedd yn gyfnod rhy fyr i hyrwyddo a datblygu mentrau busnes. Angen pwyso ar y Llywodraeth am gyfnod hirach
- Nid yw'r arian sydd yn cael ei dderbyn yn ddigonol
- Angen ymgynghori gyda Menter Busnes i osgoi dyblygu gwaith
- Bydd angen mesur yr effaith er mwyn sicrhau Arfor 2
- Angen targedu a chefnogi pobl ifanc sydd yn llai tebygol o ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes
- Bod angen sicrhau cadw enwau Cymraeg ar y tiroedd
- Arfor yn syniad arloesol ar y dechrau ond bellach y deilliant yn llawer llai
- Dim sicrwydd i ddyfodol Arfor. Cynigiwyd bod y Pwyllgor yn ysgrifennu at y Gweinidog yn gofyn sut mae Rhaglen Arfor yn gweithio gyda chynlluniau ehangach y Llywodraeth megis cynlluniau iaith a'r strategaeth Economaidd.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â sut bydd y cynllun yn parhau ar ôl dwy flynedd, amlygwyd mai bwriad y Cynllun Strategol sydd yn cael ei ddatblygu yw edrych ar sut mae'r prosiectau yn gweithio a mesur yr effaith.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru, amlygwyd bod pob cynllun yn cael ei drafod gyda'r Llywodraeth

**PENDERFYNWYD bod y pwyllgor yn ysgrifennu at Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol yn gofyn am ymrwymiad y Llywodraeth i'r cynllun a sut mae cynllun Arfor yn gweithio gyda chynlluniau ehangach y Llywodraeth megis cynlluniau iaith a'r strategaeth Economaidd.**

Gwnaed cynnig gan y Cynghorydd John Pughe Roberts i'r Swyddogion Iaith ystyried prosiect yn ymwneud a gwaith Dr John Davies, Mallwyd. Nodwyd mai ef oedd prif olygydd a diwygiwr rhifyn 1620 o gyfieithiad Cymraeg o'r Beibl. Er mwyn cydnabod gwaith arwyddocaol Dr John Davies, awgrymwyd ystyried prosiect ar gyfer dathlu 400 canmlwyddiant ei waith.
**PENDERFYNWYD trefnu bod y Cynghorydd John Pughe Roberts yn trafod y cynnig gyda swyddogion Hunaniaith**

## 6. BYW'N IACH

Derbyniwyd adroddiad ar lafar gan Reolwr Gyfarwyddwr Byw'n Iach ar y gwaith sydd wedi ei wneud gan y cwmni i warchod yr iaith wrth i adrannau o'r Cyngor gael eu hallanoli. Eglurwyd bod Byw'n Iach wedi ei sefydlu yn Ebrill 2019 fel cwmni cyfyngedig trwy warant o dan reolaeth Cyngor Gwynedd yn gweithredu cytundeb ar ran y Cyngor i reoli Canolfannau Hamdden yn y Sir a darparu ystod o wasanaethau Chwaraeon, Iechyd a Ffitrwydd. Fel rhan o'r cytundeb, nodwyd bod cyfrifoldeb dros yr iaith wedi ei gynnwys a bod cydweithio gyda swyddogion datblygu'r iaith wedi sicrhau bod y broses o drosglwyddo wedi ei ffurfioli.
Adroddwyd bod 250 o staff wedi trosglwyddo a bod yr ymateb cychwynnol wedi bod yn un cadarnhaol gyda chanmoliaeth at ymddygiad y staff tuag at newid. Cafwyd lansiad meddal i'r trosglwyddiad gan nad oedd newidiadau amlwg i wasanaethau cwsmer. Amlygwyd mai'r bwriad yw ceisio diwylliant o berchnogaeth i'r holl staff.
Yng nghyd-destun iaith, adroddwyd bod y cwmni wedi creu polisi Iaith gyfatebol i bolisi Cyngor Gwynedd sydd yn berthnasol ac ymarferol i'r maes Hamdden. Amlygwyd bod rhai o amcanion y polisi wedi cadw run fath ond cymalau ychwanegol ar gyfer creu dylanwad o fewn y sector Hamdden. Nodwyd bod gwaith yn cael ei wneud i ddatblygu'r gweithle gyda bwriad o greu swyddi arbenigol i ymgymryd â dyletswyddau penodol. Ategwyd bod y dynodiadau iaith mewn swydd ddisgrifiadau wedi cael eu herio i fod yn uchelgeisiol wrth fapio'r angen a bod asesiad sgiliau wedi ei gwblhau fel sylfaen i flaenoriaethu rhaglen waith i'r timau.
Ategodd Swyddog Dysgu a Datblygu Iaith Gymraeg y Cyngor bod pob aelod o staff y gwasanaeth Hamdden sydd wedi derbyn hyfforddiant yn cael ei asesu a bod yr aelod staff a'r rheolwr yn sicrhau bod yr hyfforddiant yn gwreiddio. Mynegwyd bod adborth cychwynnol y staff wedi bod yn bositif a chanmolwyd eu hymdrechion a'u parodrwydd i ymateb i'r her.
Diolchwyd am y wybodaeth
Mewn ymateb i sylw ynglŷn â'r defnydd o gerddoriaeth Gymraeg mewn dosbarthiadau ffitrwydd nodwyd bod y gerddoriaeth wedi ei baratoi gan gwmnïau penodol ac mai cerddoriaeth heb eiriau sydd i'w chwarae. Anodd fyddai creu adnodd Byw'n Iach, ond derbyniwyd bod modd ystyried y sylw.
Mewn ymateb i sylw ynglŷn â datblygu llwybr gyrfa, amlygwyd bod bwriad creu swyddi penodol fydd yn cynnig arbenigedd mewn meysydd priodol. Bydd hyfforddiant

a chefnogaeth yn cael ei gyflwyno gyda'r bwriad o greu mwy o amrywiaeth a chyfleoedd i staff ddatblygu. Nodwyd yr angen i fuddsoddi mewn staff er mwyn sicrhau datblygiad a diwallu'r syniad mai swyddi achlysurol yn unig sydd yn cael eu cynnig yn y maes Hamdden.
Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag ystyried cynllun rhannu enillion gyda'r staff nodwyd nad oedd hyn yn bosib ar hyn o bryd ond yn gynllun y gellid ei ystyried i'r dyfodol. Ategwyd bod Cyngor Fflint wedi mabwysiadau cynllun o'r fath, ond bod Byw'n Iach wedi mabwysiadu cytundeb mewnol gyda Chyngor Gwynedd
Mewn ymateb i sylw ynglŷn â gwrthdaro posib rhwng symud tuag at staff arbenigol a cheisio staff sy'n hyderus yn y Gymraeg, amlygwyd bod staff sydd eisoes yn gyflogedig yn debygol o allu cyflenwi'r angen arbenigol. Ategwyd bod bwriad gwneud defnydd o bencampwyr o fewn canolfannau i arwain ar feysydd penodol, gan gynnwys y Gymraeg. Bydd cefnogaeth barhaus gan yr Uned Iaith a'r Uned Dysgu a Datblygu i gefnogi'r disgwyliadau.
Sylwadau yn codi o'r drafodaeth:

- Bod angen ymgorffori targed iaith yn y daflen Cynllun Busnes (crynodeb)
- Bod angen ceisio gwaredu'r ethos Saesneigaidd ymysg staff - angen hybu'r staff i ddefnyddio Cymraeg wrth sgwrsio
- Bod angen targedu partneriaid / colegau i baratoi unigolion yn well ar gyfer swyddi yn y sector hamdden
- Annog y cwmni i hysbysebu mewn papurau lleol
- Bod gwerth cysylltu gyda Swyddog Dalgylchoedd Addysg

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

## 7. DYNODIADAU IAITH

Derbyniwyd diweddariad ar gynnydd y prosiect Dynodiadau Iaith gan roi cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau neu gynnig argymhellion ar gyfer unrhyw gamau pellach.
Adroddwyd ar gefndir y prosiect gan amlygu bod y Pwyllgor Iaith (yn 2015) wedi penderfynu edrych ar drefn gofnodi sgiliau iaith staff mewn paratoad ar gyfer dyfodiad Safonau Iaith 2016. Yn mis Ionawr 2016 gwnaed penderfyniad pellach i adolygu gofynion ac amodau iaith swyddi'r Cyngor er mwyn gosod gofynion realistig ochr yn ochr â dyletswyddau'r swydd. Yn 2017 dechreuwyd ail ran y prosiect o sicrhau cefnogaeth i aelodau cyfredol o staff naill ai gadw safon eu sgiliau Cymraeg neu gyrraedd gofynion iaith eu swydd os oedd bwlch yn bodoli.
Tynnwyd sylw at rai gwasanaethau nodedig a weithiwyd a hwy ynghyd â phrif datblygiadau gwaith e.e., holiadur hunanasesu lefel, hyfforddiant, ôl ofal- cyfeillion Cymraeg a llwyddiannau'r prosiect. Y gobaith yw parhau i ymweld â Gwasanaethau, gweithio'n agos gyda chwmni Byw'n Iach a staff cartrefi gofal.

Diolchwyd am y wybodaeth ysbrydoledig a chalonogol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sicrhau parhad i'r prosiect, amlygwyd bod gobaith i benaethiaid a rheolwyr gwasanethau ymgymryd â'r gwaith o ddatblygu a chefnogi eu staff. Ategwyd bod trosiant staff yn amlygu heriau ac nad oedd diweddglo i'r prosiect mewn gwirionedd.

## 8. ADRODDIAD SICRWYDD COMISIYNYDD GYMRAEG 2018-19

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Ymgynghorydd Iaith yn adrodd yn gryno ar

ganfyddiadau Adroddiad Sicrwydd Comisiynydd y Gymraeg. Nodwyd bod yr adroddiad yn ganlyniad o waith monitro cwynion, gwaith ymchwil, arsylwi a holi grwpiau ffocws, ac sy'n dangos canfyddiadau am lwyddiant sefydliadau i weithredu a chydymffurfio gyda'r Safonau.

Cyhoeddwyd adroddiad sicrwydd diweddaraf y Comisiynydd dan y teitl Hawlio Cyfleoedd yn ystod haf 2019. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio rhwng gallu sefydliadau i warantu bod hawl unigolyn i wasanaethau Cymraeg yn cael ei fodloni a defnydd y cyhoedd o'r gwasanaethau hynny.

Tynnwyd sylw at y materion perthnasol yn yr adroddiad;

- Bod angen codi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau
- Angen sicrhau bod pawb ar draws y Cyngor yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u dyletswyddau o safbwynt y Safonau
- Bod angen ystyried mwy o weithgarwch i wirio gwasanaethau ar hap
- Bod angen defnyddio ffurflen hunan-fonitro fel ffordd o gasglu gwybodaeth reolaidd gan adrannau am gydymffurfiaeth
- Bod amser ac adnoddau staff digonol yn cael ei neilltuo ar gyfer cyflawni'r rôl o gadw golwg ar weithrediad y Safonau.
- Bod swyddogion gweithredol ac arbenigol yn cael eu cynnwys yn ddigon buan wrth gynllunio a gweithredu prosiectau er mwyn sicrhau gwneud y gorau o bob cyfle i hybu a hyrwyddo'r Gymraeg.
- Bod angen cymell pobl i ddefnyddio'r Gymraeg a chasglu gwybodaeth ystyrlon o ddefnydd iaith unigolyn.

Diolchwyd am yr adroddiad a chroesawyd y camau gweithredu

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y prif sylwadau canlynol gan aelodau:

- Bod angen i'r Cyngor gyfathrebu eu disgwyliad i bobl gysylltu â'r Cyngor yn y Gymraeg
- Angen amlygu mai iaith weinyddol y Cyngor yw'r Gymraeg
- Angen hyrwyddo bod canran uchel iawn o staff yn siarad Cymraeg
- Bod angen uchafu defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg gwybodaeth
- Gwahodd penaethiaid adrannau yn eu tro i rannu profiadau / arferion da ar sut y maent yn ymateb i ofynion y Safonau. Awgrym i adrodd ar sefyllfa'r Gymraeg yn eu hadrannau gan gynnig enghreifftiau o lwyddiannau a heriau fel bod y Pwyllgor yn ymwybodol o'r sefyllfa.
- Cais i'r Aelod Cabinet gyflwyno adroddiad cryno i gyfarfodydd o'r Pwyllgor fyddai'n rhoi trosolwg strategol ar waith y Cyngor
- Cais i adroddiad cwynion / canmoliaethau gael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar y rhaglen

**Penderfynwyd,**

- **gwahodd Penaethiaid Adrannau i'r Pwyllgor yn eu tro i roi diweddariad ar y sefyllfa o fewn eu hadrannau.**
- **Adfer yr ymarferiad o gynnwys adroddiad cwynion fel eitem fer, sefydlog ar y rhaglen fyddai hefyd yn cynnwys canmoliaethau**
- **Bod yr Aelod Cabinet yn cyflwyno adroddiad byr fyddai'n rhoi trosolwg strategol ar ddatblygiadau ym maes Y Gymraeg o fewn y Cyngor.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 1.00 y.h.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD** | 16 Ionawr 2020 |
| **TEITL** | Adroddiad Adolygu Blynyddol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) |
| **PWRPAS** | I ystyried cynnwys yr adroddiad cynnydd a chynnig sylwadau |
| **AWDUR** | Debbie Anne Williams Jones |
| **AELOD CABINET** | Cynghorydd Cemlyn Rees Williams |

**1. CEFNDIR**

1.1. Daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) yn gyfraith yng Nghymru ar 4 Mawrth 2013. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru (CSGA). Daeth y cynlluniau cyntaf hyn yn weithredol ar 1 Ebrill 2014 am gyfnod o 3 blynedd hyd at fis Mawrth 2017. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

1.2 At hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau polisi allweddol eraill ym maes y Gymraeg mewn Addysg, sef:

- Cymraeg 2050,
- Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl (Cynllun Gweithredu 2017-21)
- Y Gymraeg mewn Addysg: Cynllun Gweithredu 2017-21
- Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-23

1.3 Yn ystod 2017-18, bu cyfnod ymgynghori ar Reoliadau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ynghyd â'r Canllawiau drafft. Yn ddiweddar, derbyniwyd cadarnhad fod y Rheoliadau wedi eu gosod ar 5 Rhagfyr 2019, a'u bod yn dod i rym ar 1 Ionawr 2020. Ceir copi o'r Rheoliadau yma: http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019/1489/made

1.4 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol osod targed 10 mlynedd yn eu CSGA sydd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig mewn plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.

1.5 Am nawr, fodd bynnag, rydym yn parhau i weithredu ein CSGA 3 blynedd presennol, a bwriad yr adroddiad yma yw cyflwyno adroddiad adolygu blynyddol Gwynedd ar weithrediad ein CSGA cyfredol yn 2018-19.

## 2. ADRODDIAD ADOLYGU BLYNYDDOL CSGA GWYNEDD 2018-19

2.1 Yn Atodiad 1, cyflwynir adroddiad adolygu blynyddol ar weithrediad CSGA Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2018-19.

2.2 Mae'r adroddiad adolygu blynyddol wedi ei chyflwyno ar ffurf gwahanol eleni yn sgil derbyn templed penodol ar gyfer yr adroddiad gan Lywodraeth Cymru. Caiff yr adolygiad blynyddol ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn y Pwyllgor Iaith hwn.

2.3 Er gwybodaeth a hwylustod, ceir copi o CSGA Gwynedd ar gyfer 2017-2020 drwy ddilyn y linc canlynol: CSGA Gwynedd

2.4 Er hwylustod hefyd, rhoddir diffiniad o 7 deilliant y CSGA isod:

| | |
|---|---|
| Deilliant 1: | Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Deilliant 2: | Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. |
| Deilliant 3: | Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| Deilliant 4: | Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith. |
| Deilliant 5: | Mwy o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg. |
| Deilliant 6: | Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg. |
| Deilliant 7: | Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) |

## 3. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r aelodau:

- Gyflwyno unrhyw sylwadau ar gynnwys yr adroddiad adolygu blynyddol CSGA y bwriedir ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## ADRODDIAD ADOLYGU BLYNYDDOL CSGA RHAGFYR 2019

## PRIF LWYDDIANNAU/UCHAFBWYNTIAU

*Dylech gynnwys ddim mwy na 5 o'ch prif lwyddiannau/uchafbwyntiau yn yr adran yma.*

**DEILLIANT 1:**

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Rydym yn hynod falch fod **98.5%** o ddysgwyr yn 2018-19 wedi cael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, sydd yn gynnydd o 0.6% o gymharu â 2017-18.

**DEILLIANT 2:**

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar sicrhau dilyniant ieithyddol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall. Mae swydd y Cyd-gysylltydd Iaith Dalgylchol yn greiddiol i hyn. Mae'r Cyd-gysylltwyr Iaith yn cael eu rhyddhau gan yr Awdurdod am 10 diwrnod y flwyddyn i gefnogi ysgolion y dalgylch i weithredu'r Polisi Iaith. Maent yn ymweld yn flynyddol â'r ysgol uwchradd i drafod materion yn ymwneud â dilyniant CA2 a CA3, gan gynnwys tracio dysgwyr unigol yn ôl y carfanau iaith. Drwy hyn mae trefn gadarn yn ei lle o ran cydlynu'r dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd yn y dalgylch, gan sicrhau bod dysgwyr sydd wedi ennill Lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf ym Mlwyddyn 7, ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. Gwelir ffrwyth llafur y Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol yn sgil y ffaith y bu i **84.5%** o ddysgwyr Blwyddyn 9 yn 2018-19 gael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf), sydd yn gynnydd o 1.1% o gymharu â 2017-18.

**DEILLIANT 5:**

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar sicrhau fod pob dysgwr yn hyfedr ddwyieithog erbyn 11 oed, ac yn gallu manteisio'n llawn ar yr addysg Gymraeg a dwyieithog a geir yng Ngwynedd hyd 16 oed ym Meirion Dwyfor a 18 oed yn Arfon ac Ysgol Godre'r Berwyn, Y Bala. O ganlyniad, mae maint y cohort sydd yn astudio Cymraeg Iaith Gyntaf yn sylweddol uwch yng Ngwynedd, ac rydym yn ymfalchïo fod **70.7%** o'n dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 wedi ennill graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf yn 2018-19, sydd yn gynnydd o 0.6% o gymharu â 2017-18 (70.1%).

**SIARTER IAITH:** Yn sgil llunio hunan-arfarniad a gweithredu gofynion y Siarter Iaith yn 2018-19, ac yn sgil proses ddilysu fanwl, bu i 41 ysgol gyflawni gofynion y wobr aur, a 31 ysgol gyflawni gofynion y wobr arian. Rhwng Hydref 2018 a Haf 2019, gwelwyd hefyd gynnydd yn y gwe iaith, sydd yn atgyfnerthu gweithredu cadarnhaol ein hysgolion cynradd ym maes defnydd anffurfiol o'r Gymraeg, meithrin agweddau cadarnhaol, a hyrwyddo'r Gymraeg ym maes cerddoriaeth, teledu a'r we.

**STRATEGAETH IAITH UWCHRADD:**

Cwblhaodd pob disgybl ym mlynyddoedd 7 ac 8 yr ysgolion uwchradd y Gwe Iaith yn ystod Tymor yr Hydref 2018. Roedd hyn yn ddatblygiad o'r drefn arferol o'i gwblhau gyda disgyblion blwyddyn 7 yn unig. Rhannwyd y canlyniadau gyda'r ysgolion, a'u defnyddio'n sail i'w hunan-arfarniadau a'u targedau gweithredu ar gyfer y flwyddyn addysgol. Ymgeisiodd yr holl ysgolion am arian Prosiect Cefnogi Arferion Iaith (PCAI) i'w galluogi i gynnal digwyddiadau'n yr ysgol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol, a gwelwyd amrywiaeth o weithgareddau'n cael eu cynnal. Bu'n bleser gweld ffrwyth llafur cynrychiolwyr o'r ysgolion a ddaeth at ei gilydd i greu fideo i hyrwyddo manteision addysg ddwyieithog yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn a chyhoeddwyd deunyddiau marchnata i gyd-fynd â hynny. Cychwynnwyd Cynllun Peilot ar y cyd ag Ysgol Bro Idris er mwyn edrych yn fanylach ar

sut mae agweddau dysgwyr tuag at yr Iaith yn newid wrth iddynt drosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Bydd yn ddiddorol gweld pa ganfyddiadau a ddaw er mwyn llywio'r ddarpariaeth ymhellach yn yr ysgolion uwchradd.

**DEILLIANT 6:**
Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn gallu darparu yr holl ystod o wasanaethau i'n dysgwyr mwyaf bregus drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn sgil mabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gyffredin sydd yn cyfarch anghenion disgyblion a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

## GOROLWG CYNLLUN CYFAN

*Coch/Oren/Gwyrdd*
*Dylech nodi eich targed presennol, eich cyrhaeddiad eleni a rhoi hunan arfarniad o goch/oren/gwyrdd.*
Nid oes targed yn CSGA presennol Gwynedd, ond yn hytrach gweledigaeth a nod fel yr amlinellir isod:

**Gweledigaeth:**

Ein gweledigaeth yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf er mwyn cynnal yr iaith, diwylliant a'r economi yn lleol.

**Nod:**

Mae Polisi Iaith yr Adran Addysg yn gosod y nod uchelgeisiol o sicrhau bod holl ddisgyblion y Sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Cydwedda hyn yn dda gyda phrif nod Cynllun Strategol y Gymraeg sef sicrhau datblygiad y Gymraeg fel pwnc a chyfrwng dysgu o oedran cyn-ysgol ymlaen yn ogystal â hyrwyddo'r defnydd a wna ein plant a'n pobl ifanc o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol.

Dyma ein hunanarfarniad (coch/oren/gwyrdd) fesul deilliant:

| **DEILLIANT 1:** | **Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
|---|---|---|---|
| **MESURYDD:** | **% dysgwyr sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen** | | |
| **TARGED:** | **99.2%** | **PERFFORMIAD 2018-19** | **98.5%** |
| Mae pob plentyn (ar wahân i eithriadau prin) yn cael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Er bod y perfformiad 0.7% yn is na'r targed, y mae'r perfformiad o ystyried ei fod yn cynnwys y cohort cyfan yn parhau'n gyson dda, gan sicrhau fod plant yn cael eu trochi yn y Gymraeg yn unol â'r Polisi Iaith. | | | |

| **DEILLIANT 2:** | **Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd** |
|---|---|
| **MESURYDD:** | **% y dysgwyr blwyddyn naw sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf)** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TARGED:** | **86.2%** | **PERFFORMIAD 2018-19** | **84.5%** |
| | | | |
| Er bod y perfformiad 1.7% yn is na'r targed, y mae'r perfformiad o ystyried ei fod yn cynnwys y cohort cyfan yn parhau'n gyson dda. Gwelir bod gwahaniaeth yn nifer y plant a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg ym mlwyddyn 6 (98.3%), ac yna y nifer ym mlwyddyn 9 (84.5%), a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar y pontio er mwyn cynnal / cynyddu'r % o ddysgwyr Blwyddyn 9 sydd yn cael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf). | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **DEILLIANT 3:** | **Mwy o fyfyrwyr 14-16 yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
| **DEILLIANT 4:** | **Mwy o fyfyrwyr 14-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion colegau a dysgu yn seiliedig ar waith** | | |
| **MESURYDD:** | **% y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
| **TARGED:** | **86.2%** | **PERFFORMIAD 2018-19** | **78.1%** |
| **MESURYDD:** | **% y dysgwyr sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg** | | |
| **TARGED:** | **73.3%** | **PERFFORMIAD 2018-19** | **64.2%** |

Mae'r perfformiad yn is na'r targed ar gyfer y ddau fesurydd, fodd bynnag, roeddem wedi rhagweld hyn ac mewn cydweithrediad gyda phob ysgol uwchradd yng Ngwynedd, rydym wedi sefydlu gwaelodlin o gyfrwng y ddarpariaeth gwricwlaidd yn unol â 5 diffiniad o'r ddarpariaeth ar gyfer CA3, CA4, a CA5. Yn sgil hynny, o Fedi 2019 ymlaen, byddwn yn cytuno ar dargedau penodol gyda pob ysgol uwchradd er mwyn cynyddu:

- Y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm yn CA3, CA4 a CA5
- Nifer/% dysgwyr sydd yn astudio ystod o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn:
  - CA3
  - CA4
  - CA5

| | | | |
|---|---|---|---|
| **DEILLIANT 5:** | **Mwy o fyfyrwyr a sgiliau uwch yn y Gymraeg** | | |
| **MESURYDD:** | **% y disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf** | | |
| **TARGED:** | **78.1%** | **PERFFORMIAD 2018-19** | **70.7%** |
| AMCAN: | Cynyddu % disgyblion y Cyfnod Sylfaen enillodd ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (Iaith Gyntaf) (Lefel 2+/Deilliant 5+) | | |
| PERFFORMIAD: | 78.8% | | |
| AMCAN: | Cynyddu % disgyblion CA2 enillodd lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg | | |
| PERFFORMIAD: | 86.9% | | |
| AMCAN: | Cynyddu % disgyblion CA3 enillodd lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg | | |
| PERFFORMIAD: | 91.9% | | |
| Er bod y perfformiad 7.4% yn is na'r targed, y mae'r perfformiad o ystyried ei fod yn cynnwys y cohort cyfan yn parhau'n gyson dda, a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal / cynyddu'r % o ddysgwyr sy'n cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Iaith Gyntaf. Mae perfformiad yn erbyn yr amcanion yn y Cyfnod Sylfaen, CA2 a CA3 hefyd yn gyson dda. | | | |

| DEILLIANT 6: | Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) cyfrwng Cymraeg |
|---|---|
| Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn gallu darparu yr holl ystod o wasanaethau i'n dysgwyr mwyaf bregus drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Yn sgil mabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gyffredin sydd yn cyfarch anghenion disgyblion a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol. | |

| DEILLIANT 7: | Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) |
|---|---|
| Yn sgil yr Awdit Sgiliau Iaith gyda gweithlu ein hysgolion a gynhaliwyd ar draws rhanbarth y gogledd yn 2017-18, mae gwaith manwl wedi ei gyflawni i edrych ar ganfyddiadau'r Awdit, ac ystyried pa hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol sydd ei angen ar weithlu ein hysgolion. Mae cynlluniau penodol er mwyn datblygu sgiliau iaith y gweithlu wedi eu cynnal yn Ysgol Friars ac Ysgol Uwchradd Tywyn yn ogystal. | |

## DATA BLYNYDDOL ALLWEDDOL

**DEILLIANT 1:**
Yn 2018-19, bu i **98.5%** o ddysgwyr gael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

**DEILLIANT 2:**
Yn 2018-19, bu i **84.5%** o ddysgwyr Blwyddyn 9 gael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf).

**DEILLIANT 3 a DEILLIANT 4:**
Yn 2018-19, bu i 78.1% o ddysgwyr gofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) gofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn 2018-19, bu i 64.2% o ddysgwyr gofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) gofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg.

**DEILLIANT 5:**
Yn 2018-19, bu i **70.7%** o ddysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 ennill graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf.

Yn 2018-19, bu i **78.8%** o ddysgwyr y Cyfnod Sylfaen ennill Deilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (lefel 2+/Deilliant 5).

Yn 2018-19, bu i **86.9%** o ddysgwyr CA2 ennill Lefel 4+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg.

Yn 2018-19, bu i **91.9%** o ddysgwyr CA3 ennill Lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Iaith Gyntaf.

Yn 2018-19, bu i **77.1%** o ddysgwyr CA3 ennill Lefel 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg Ail Iaith.

## ALINIAD GYDA MEYSYDD POLISI PERTHNASOL

*Er enghraifft;*
*Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer 21fed Ganrif.*

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Gwynedd yn alinio gyda'r dogfennau strategol a pholisi canlynol:

- Cymraeg 2050
- Cynllun y Cyngor
- Cynllun Hybu'r Gymraeg
- Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer 21fed Ganrif.
- Siarter Iaith
- Strategaeth Iaith Uwchradd
- Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant

## RISGIAU LEFEL DEILLIANT

*Dylech fanylu ar faterion sirol unigol allai gael effaith ar eich cyrhaeddiad fesul deilliant.*

**DEILLIANNAU 1-4**

Un o'r risgiau i gyflawni a chynnal lefelau presennol y deilliannau uchod yn y sector cynradd, ond mwy felly yn yr uwchradd, yw'r heriau cynyddol i Bolisi Iaith y Sir o du rhieni ar lefel ysgol unigol ac Awdurdod.

Mae pob ysgol yng Ngwynedd wedi eu harfogi gyda manteision addysg Gymraeg a dwyieithog, ac mae taflenni pwrpasol wedi eu cynhyrchu gan yr Awdurdod ar gyfer yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn hysbysu rhieni o'r manteision addysgol, cymdeithasol, economaidd a gwybyddol o ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd.

Er hyn, mae rhai dalgylchoedd yn profi anawsterau o ran ceisio dwyn perswâd ar rieni o fanteision addysg Gymraeg a dwyieithog.

**DEILLIANNAU 1-4**

Yn sgil toriad yn y Grant Gwella Addysg sydd yn cyllido Canolfannau Iaith Gwynedd, yn ystod 2018-19, bu ymgynghori ar strwythur staffio amgen ar gyfer cynnal gwasanaeth y Canolfannau Iaith i'r dyfodol.

Ar 2 Ebrill 2019, bu i Gabinet Cyngor Gwynedd benderfynu'r canlynol:

- Diddymu lwfans CAD i athrawon ymhob Canolfan Iaith, ynghyd ag ymgorffori'r ôl-ofal yn rhan o ddarpariaeth graidd y Canolfannau Iaith, gan ddiddymu'r swydd ôl-ofal sydd yn bodoli ar hyn o bryd.

- Gweithredu cynllun peilot o strwythur staffio o athro a chymhorthydd gan gynyddu'r gymhareb athro : disgybl mewn un Canolfan Iaith am gyfnod o flwyddyn, gan ei fonitro'n ofalus er mwyn canfod a ydyw yn cael effaith ar ansawdd yr addysg a chyrhaeddiad y plant.

- Er mwyn prynu amser i ystyried canlyniadau'r peilot, cymeradwyo cyllid pontio i gyfarch y bwlch fydd yn parhau i fodoli ar ôl gweithredu ar (ii) uchod hyd nes y bydd casgliadau'r peilot yn wybyddus.

Yn sgil penderfyniad y Cabinet, o Fedi 2019, bydd yr Adran Addysg yn gweithredu cynllun peilot yng Nghanolfan Iaith Maesincla o strwythur staffio o athro a chymhorthydd, gan gynnal ymchwil i fesur effaith y peilot ar gynnydd ieithyddol y plant.

## SICRWYDD/ GWEITHREDOEDD LLINIARU RISGIAU

*Er enghraifft;*
*A.LL yn edrych ar strwythurau cyllid er mwyn sicrhau parhad y ddarpariaeth.*

**DEILLIANNAU 1-4**

Er mwyn ceisio lliniaru rhywfaint ar y risgiau ynghlwm â'r heriau presennol i Bolisi Iaith Gwynedd, yn ystod 2019-20, byddwn fel Awdurdod yn rhagweithiol wrth ddarparu cefnogaeth benodol i rai ardaloedd i ymateb i'r heriau o du rhieni. Byddwn hefyd yn dosbarthu deunydd pellach yn hyrwyddo manteisio dwyieithrwydd i holl ysgolion uwchradd Gwynedd.

**DEILLIANNAU 1-4**

Yn sgil penderfyniad y Cabinet, rhagwelir y gellir dygymod gydag unrhyw fwlch ariannol yng nghyllideb y Canolfannau Iaith yn sgil y toriad yn y Grant Gwella Addysg ar gyfer 2019-20, sef y cyfnod o weithredu'r cynllun peilot yng Nghanolfan Iaith Maesincla. Y bwriad yw dychwelyd yn ôl i'r Cabinet er mwyn cyflwyno canfyddiadau'r ymchwil yn sgil gweithredu'r cynllun peilot. Nid oes amserlen benodol ar gyfer dychwelyd i Gabinet ar hyn o bryd.

## GWEITHREDU A MONITRO

Dylech fanylu ar eich dulliau a phrosesau mewnol o fonitro cynnydd, yn ogystal a'r gwaith monitro drwy'r fforwm addysg sirol.

Nid oes Fforwm Addysg Sirol yn bodoli fel endid yng Ngwynedd ar hyn o bryd, ac felly cyflawnir pwrpas y Fforwm drwy'r strwythurau canlynol:

**Pwyllgor Iaith / Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi**
Rydym yn adrodd yn flynyddol ar weithrediad ein CSGA gerbron Pwyllgor Iaith y Cyngor bob mis Ionawr, yno cawn ein herio gan yr aelodau ar gyflawniad a chynhelir trafodaethau ar y blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod nesaf. Os oes mater yn peri pryder i'r aelodau etholedig ac yn faes y dylid ei graffu, yna mae modd iddynt ei gyfeirio i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

**Rhaglen Ysgolion G21**
Mae Bwrdd Rhaglen wedi ei sefydlu er mwyn sicrhau cynnydd a datrys rhwystrau yng nghyd-destun prosiectau Band A a Band B y Rhaglen G21, ynghyd â'r maes Blynyddoedd Cynnar. Mae gan bob prosiect ad-drefnu ei fwrdd prosiect ei hun, a threfniadau rheolaeth prosiect gadarn, gydag ystyriaethau am y Gymraeg ac Asesiadau Effaith Ieithyddol unrhyw gynnig statudol i ad-drefnu yn rhan o'r prosesau hynny a weithredir gennym i sicrhau gweithrediad effeithiol y Rhaglen Ysgolion G21.

**Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol**
Mae'r Cyd-gysylltwyr Iaith yn cael eu rhyddhau gan yr Awdurdod am 10 diwrnod y flwyddyn i gefnogi ysgolion y dalgylch i weithredu'r Polisi Iaith. Maent yn ymweld yn flynyddol â'r ysgol uwchradd i drafod materion yn ymwneud â dilyniant CA2 a CA3, gan gynnwys tracio dysgwyr unigol yn ôl y

carfanau iaith. Drwy hyn mae trefn gadarn yn ei lle o ran cydlynu'r dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd yn y dalgylch, gan sicrhau bod disgyblion sydd wedi ennill Lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf ym Mlwyddyn 7, ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. Mae'r Cyd-gysylltwyr Iaith yn atebol i'r Awdurdod ac yn adrodd ar y tracio a'r dilyniant i'r Awdurdod ddwywaith y flwyddyn.

**Bwrdd Ansawdd Sirol**
Cynhelir cyfarfodydd misol o'r Bwrdd Ansawdd Sirol a gaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Addysg, gyda Swyddogion Addysg yr Awdurdod a GwE yn bresennol er mwyn trafod ysgolion sydd yn peri pryder a chytuno ar her a chefnogaeth briodol iddynt i'w galluogi i symud i'r cyfeiriad cywir. Yn y Bwrdd Ansawdd Sirol hefyd y rhoddir sylw i ganlyniadau'r haf, i ganlyniadau arolygon Estyn ysgolion, ynghyd â'r drefn gategoreiddio ysgolion. Os cyfyd sefyllfa ble fo canlyniadau ym maes y Gymraeg yn peri pryder, neu ganlyniadau'r Gymraeg ar lefel ysgol unigol, yna cyfeirir y mater i sylw'r Bwrdd Ansawdd Sirol.

**Herio Perfformiad**
Mae cynlluniau busnes Adrannol gennym ar gyfer y canlynol:

- Siarter Iaith
- Strategaeth Iaith Uwchradd
- Canolfannau Iaith

Bydd y cynlluniau busnes hyn yn cael eu monitro'n chwarterol yn unol â'r drefn rheoli perfformiad Adrannol.

At hyn, cynhelir cyfarfodydd herio perfformiad gyda'r Aelod Cabinet dair gwaith y flwyddyn ble byddwn yn adrodd ar y cynlluniau busnes uchod, a phrosiectau sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, sef prosiectau'r Rhaglen G21 ynghyd â'r Strategaeth Iaith Uwchradd. Bydd cynnwys y cyfarfodydd hyn yn llunio Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Addysg a gaiff ei gyflwyno gerbron cyfarfodydd y Cabinet.

| **BLAEN OLWG/CERRIG MILLTIR** |
|---|

*Dylech fanylu ar unrhyw ddatblygiadau sylweddol sydd mewn golwg ar gyfer y flwyddyn ganlynol.*

**CYFFREDINOL**

Yn 2019-20, byddwn yn sefydlu Bwrdd Prosiect y Gymraeg a gaiff ei gadeirio gan y Pennaeth Addysg, fydd yn rhoi ffocws clir ar:

- CSGA
- Canolfannau Iaith
- Siarter Iaith
- Strategaeth Iaith Uwchradd.

Bydd y Bwrdd Prosiect yn gyfrifol am ystyried y rheoliadau newydd gan lunio drafft o'r CSGA ar gyfer Medi 2021 i gyd-fynd â'r gofynion, ymgynghori ar y CSGA newydd, ynghyd â sefydlu Fforwm Addysg Sirol i arwain ar y CSGA a maes y Gymraeg yn gyffredinol o Medi 2021 ymlaen.

**DEILLIANT 1**

Byddwn yn darparu hyfforddiant ar egwyddorion trochi iaith yn y Cyfnod Sylfaen i weithlu ein hysgolion cynradd er mwyn atgyfnerthu ein Polisi Iaith, gan anelu at gynnal a chynyddu canran y dysgwyr sydd yn cyrraedd Deilliant 5+ ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen.

**DEILLIANNAU 2-4**

Yn sgil sefydlu gwaelodlin, byddwn yn cytuno ar dargedau penodol gyda phob ysgol uwchradd er mwyn cynyddu:

- Y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm yn CA3, CA4 a CA5
- Nifer/% dysgwyr sydd yn astudio ystod o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn:
  - CA3
  - CA4
  - CA5

Yn ystod 2018-19, mae gwaith ymchwil pen-desg wedi bod yn mynd rhagddo i edrych ar y ddarpariaeth ôl-16 cyfredol ar draws Gwynedd. Roedd y fethodoleg a ddewiswyd yn cynnwys trafodaethau grwpiau ffocws, holiaduron ar gyfer rhieni a dysgwyr, ynghyd â chyfweliadau gyda phenaethiaid, gyda chyfrwng y ddarpariaeth wedi ei gynnwys fel rhan o friff y gwaith. Bydd y gwaith hwn o edrych ar y ddarpariaeth ôl-16 yn parhau yn 2019-20, gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i randdeiliaid ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil, fyddai'n sail wedyn i ystyried unrhyw gamau pellach.

Fel rhan o gynlluniau'r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer 21ain Ganrif sydd wedi eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, bydd unrhyw gynnig statudol yn ddarostyngedig i Asesiad Effaith Ieithyddol, er mai yr un yw nod y Polisi Iaith ar gyfer holl ysgolion Gwynedd.

Dyma gynlluniau a'r gyfer Band A a Band B o'r Rhaglen sydd eisoes yn weithredol yng Ngwynedd:

- Ysgol Godre'r Berwyn
- Ysgol y Garnedd, Bangor
- Ysgol y Faenol, Bangor
- Ysgol Ein Harglwyddes, Bangor
- Ysgol Treferthyr, Cricieth

Ar wahân i Ysgol Godre'r Berwyn sydd bellach wedi agor ym Medi 2019, bydd yr holl gynlluniau eraill yn parhau'n weithredol yn 2019-20.

**DEILLIANNAU 5 a 7**

O 2019-20 ymlaen, byddwn yn gweithredu trefn ranbarthol o gynllunio ieithyddol cynradd / uwchradd ar lefel clwstwr, a hynny mewn dau faes:

- Defnydd Anffurfiol o'r Gymraeg
- Sgiliau Iaith y Gweithlu

Bydd disgwyl i bob clwstwr lunio Cynllun Clwstwr y Gymraeg fydd yn ymateb i'w hanghenion penodol hwy (cynradd ac uwchradd) o ran annog defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy waith y Siarter Iaith a'r Strategaeth Iaith Uwchradd, ynghyd ag adnabod eu blaenoriaethau o safbwynt anghenion datblygu sgiliau iaith y gweithlu. Bydd y Cyfrifiad Gweithlu Addysg o gymorth yn hynny o beth, yn arbennig yng Ngwynedd gan ein bod wedi hyrwyddo defnydd o hunan-asesiad o sgiliau iaith corfforaethol y Cyngor fel sail ar gyfer y Cyfrifiad, felly bydd gan bob pennaeth wybodaeth a data manwl am sgiliau iaith ei staff.

Rydym wedi gweld gostyngiad bychan cyffredinol ar draws y cyfnodau allweddol (CS, CA2 a CA3) ar gyfer % y dysgwyr sydd yn ennill y deilliannau uwch ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg. Byddwn yn rhoi sylw i hyn yn ystod 2019-20.

**DEILLIANT 6**

Yn sgil mabwysiadu un Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad gyffredin fydd yn cyfarch anghenion disgyblion a phobl ifanc Gwynedd ac Ynys Môn mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, bydd monitro, asesu'r galw a chynllunio o gwmpas anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn ganolog i'r ddarpariaeth, a byddwn yn parhau i sicrhau mynediad i wasanaethau sy'n gwbl ddwyieithog.

**CRYNODEB DEILLIANNAU (uchafswm 600 gair)**

*Dylech gynnwys crynodeb byr o'ch cynnydd o dan bob deilliant.*

**DEILLIANT 1:**

Yn 2017-18, gwnaed defnydd am y tro cyntaf o ddeilliannau newydd mewn Iaith a Mathemateg o'r Fframwaith Cyfnod Sylfaen ar gyfer asesu. Er bod cynnydd yn % y dysgwyr a gafodd eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, gwelwyd gostyngiad yn % dysgwyr y Cyfnod Sylfaen enillodd Ddeilliant 5+ ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg (lefel 2+/Deilliant 5). Mae GwE wedi rhagdybio'r gostyngiad hwn, ac wedi canolbwyntio ar wella'r ddarpariaeth yn y dosbarthiadau Meithrin a Derbyn fydd yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer cyrraedd deilliannau uwch erbyn i'r dysgwyr gyrraedd diwedd y Cyfnod Sylfaen. Bydd yr Awdurdod hefyd yn darparu hyfforddiant ar egwyddorion trochi yn y Cyfnod Sylfaen.

Mae pob ysgol yng Ngwynedd wedi eu harfogi o fanteision addysg Gymraeg a dwyieithog, ac mae taflenni pwrpasol wedi eu cynhyrchu gan yr Awdurdod ar gyfer yr ysgolion cynradd ac uwchradd yn hysbysu rhieni o'r manteision addysgol, cymdeithasol, economaidd a gwybyddol o ddwyieithrwydd ac amlieithrwydd.

**DEILLIANT 2:**

Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar sicrhau dilyniant ieithyddol o'r naill gyfnod allweddol i'r llall. Mae swydd y Cyd-gysylltydd Iaith Dalgylchol yn greiddiol i hyn. Mae'r Cyd-gysylltwyr Iaith yn cael eu rhyddhau gan yr Awdurdod am 10 diwrnod y flwyddyn i gefnogi ysgolion y dalgylch i weithredu'r Polisi Iaith. Maent yn ymweld yn flynyddol â'r ysgol uwchradd i drafod materion yn ymwneud â dilyniant CA2 a CA3, gan gynnwys tracio dysgwyr unigol yn ôl y carfanau iaith. Drwy hyn mae trefn gadarn yn ei lle o ran cydlynu'r dilyniant ieithyddol o'r cynradd i'r uwchradd yn y dalgylch, gan sicrhau bod disgyblion sydd wedi ennill Lefel 3+ yn y Gymraeg ar ddiwedd CA2 yn parhau gyda'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf ym Mlwyddyn 7, ac yn cael asesiad Cymraeg Iaith Gyntaf ar ddiwedd CA3. Gwelir ffrwyth llafur y Cyd-gysylltwyr Iaith Dalgylchol yn sgil y ffaith y bu i **84.5%** o ddysgwyr Blwyddyn 9 yn 2018-19 gael eu hasesu yn y Gymraeg (Iaith Gyntaf), sydd yn gynnydd o 1.1% o gymharu â 2017-18.

**DEILLIANT 3 a DEILLIANT 4:**

Mae canran y dysgwyr sydd ddaru gofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) gofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg, neu gofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg ychydig yn is na'r targed. Roedd yr Awdurdod wedi rhagweld hyn, a thrwy gyfrwng y Strategaeth Iaith Uwchradd ac mewn cydweithrediad gyda phob ysgol uwchradd yng Ngwynedd, wedi sefydlu gwaelodlin o gyfrwng y ddarpariaeth gwricwlaidd yn unol â 5 diffiniad o'r ddarpariaeth ar gyfer CA3, CA4, a CA5. Bydd hyn yn fodd i ni ganolbwyntio ar gynyddu'r ddarpariaeth ac felly nifer y dysgwyr sydd yn astudio cynifer o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg yn CA3, CA4 a CA5.

Yn ystod 2018-19, mae gwaith ymchwil pen-desg wedi bod yn mynd rhagddo i edrych ar y ddarpariaeth ôl-16 cyfredol ar draws Gwynedd. Roedd y fethodoleg a ddewiswyd yn cynnwys trafodaethau grwpiau ffocws, holiaduron ar gyfer rhieni a dysgwyr, ynghyd â chyfweliadau gyda phenaethiaid, gyda chyfrwng y ddarpariaeth wedi ei gynnwys fel rhan o friff y gwaith. Bydd y gwaith hwn o edrych ar y ddarpariaeth ôl-16 yn parhau yn 2019-20, gyda'r bwriad o adrodd yn ôl i randdeiliaid ar ganfyddiadau'r gwaith ymchwil, fyddai'n sail wedyn i ystyried unrhyw gamau pellach.

**DEILLIANT 5:**
Mae Polisi Iaith yr Awdurdod yn rhoi pwyslais ar sicrhau fod pob dysgwr yn hyfedr ddwyieithog erbyn 11 oed, ac yn gallu manteisio'n llawn ar yr addysg Gymraeg a dwyieithog a geir yng Ngwynedd hyd 16 oed ym Meirion Dwyfor a 18 oed yn Arfon ac Ysgol Godre'r Berwyn. O ganlyniad, mae maint y cohort sydd yn astudio Cymraeg Iaith Gyntaf yn sylweddol uwch yng Ngwynedd nac unrhyw sir arall yng Nghymru, ac rydym yn ymfalchïo fod **70.7%** o'n dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 wedi cyrraedd graddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf yn 2018-19. .

Er hyn, rydym wedi gweld gostyngiad bychan cyffredinol ar draws y cyfnodau allweddol eraill (CS, CA2 a CA3) ar gyfer % y dysgwyr sydd yn ennill y deilliannau disgwyliedig ar gyfer asesiadau athro mewn Cymraeg, a byddwn yn canolbwyntio ar gynnal / cynyddu'r % au hyn yn y cyfnod nesaf.

**DEILLIANT 6: DARPARIAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL**
Mae pob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael mynediad at wasanaethau cyfrwng Cymraeg yng Ngwynedd. Mae darpariaethau a gwasanaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael ar gyfer yr holl ystod ac amrywiaeth o Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**DEILLIANT 7: CYNLLUNIO'R GWEITHLU A DATBLYGIAD PROFFESIYNOL PARHAUS (DPP)**
Yn sgil yr Awdit Sgiliau gyda gweithlu ein hysgolion a gynhaliwyd ar draws rhanbarth y gogledd yn 2017-18, mae gwaith manwl wedi ei gyflawni i edrych ar ganfyddiadau'r Awdit, ac ystyried pa hyfforddiant a chefnogaeth ieithyddol sydd ei angen ar weithlu ein hysgolion. Yn ystod 2018-19, cynhaliwyd yr hyfforddiannau canlynol:

- Gloywi Iaith: Ysgol Glan y Môr, Pwllheli
- Gloywi Iaith: Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon
- Parhad o gynlluniau peilot i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu yn Ysgol Friars ac Ysgol Uwchradd Tywyn.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 Ionawr 2020** |
| **TEITL:** | **Adroddiad yr Aelod Cabinet** |
| **AWDUR:** | **Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Rhoi diweddariad ar y prif ddatblygiadau ym maes y Gymraeg ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor. |

**1. Ymgynghoriadau**

Mae nifer o ymgynghoriadau wedi eu cynnal yn ddiweddar ar gynlluniau a pholisïau cenedlaethol lle bu mewnbwn ac ymateb o safbwynt ieithyddol.

- **Ymgynghoriad Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Llywodraeth Cymru**
  Sylwadau cyffredinol yr Uned Iaith yn cynnwys:
  - ✓ Angen sicrhau nad yw'r geiriad a'r arweiniad a roir gan y Llywodraeth yn caniatáu i awdurdodau edrych ar addysg yn unig fel eu cyfraniad o hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg.
  - ✓ Angen sicrhau bod y Gymraeg yn ystyriaeth allweddol drwy unrhyw gynlluniau yn ymwneud efo'r economi creu swyddi a ffyniant cymunedol – ar draws pob sir, ac heb eithried mewn ardaloedd lle mae llai o Gymraeg yn cael ei siarad.
  - ✓ Angen amlygu bod y Gymraeg yn ffactor ac ystyriaeth berthnasol mewn trefi a dinasoedd hefyd, ac nid yn perthyn i ardaloedd gwledig yn unig.
  - ✓ Angen i bob un o'r polisïau rhanbarthol fod a'r bwriad o wireddu'r canlyniad o greu "lleoedd lle mae'r Gymraeg yn ffynnu".
  - ✓ O safbwynt cynllun rhanbarthol y Gogledd – angen sicrhau nad yw'r sylw ar ganolfannau dinesig a'r gogledd ddwyrain yn effeithio yn negyddol ar ardaloedd mwy gwledig y gogledd orllewin, lle mae cyd-destun ieithyddol a chymdeithasol gwahanol iawn.

- **Ymgynghoriad Strategaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru**
  Ymgynghoriad ar yr egwyddorion oedd hwn, a'r amcanion cydraddoldeb strategol. Nid oedd fawr i anghytuno gydag o, ond pwysleisiwyd yr angen i'r Llywodraeth ddefnyddio'r cyfle i roi eglurder yn y maes hwn o safbwynt y Gymraeg. Roedd y ddogfen yn cyfeirio at y Ddeddf Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, ond nid oedd yn ei gwneud yn eglur o dan pa un o'r rhain roedd yr iaith yn ffitio yn nhyb y Llywodraeth. Nodwyd yn yr ymateb gan y Cyngor bod angen mwy o eglurder ar bawb ar sut mae'r Gymraeg yn plethu i mewn, naill ai fel hawl dynol, fel agwedd o'r nodwedd hil (hunaniaeth) neu fel elfen sy'n sefyll ar ei ben ei hun. Byddai arweiniad fel hyn yn cryfhau lle'r Gymraeg ym maes cydraddoldeb ac yn sicrhau fod pawb yn gweithredu yn yr un ffordd.

- **Ymgynghoriad Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol**
  Nid oedd llawer o adborth ieithyddol am yr ymgynghoriad hwn, ar wahân i bwysleisio'r pwynt uchod ynghylch yr angen i'r Llywodraeth gynnig arweiniad am statws yr iaith o fewn materion cydraddoldeb. Cynigiwyd sylwadau hefyd ar y diffiniad a roddir yn y ddogfen o anfantais economaidd-gymdeithasol. Roedd y diffiniad hwnnw yn pwysleisio'r ffactor economaidd, ac incwm isel, fel prif yrrwr ac achos amddifadedd. Er nad ydym yn anghytuno gyda hyn, teimlem bod angen mwy o gydbwysedd a sylwi i'r ffactorau cymdeithasol – sydd yr un ffactorau i ryw raddau sydd yn dylanwadu ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg.

**2. Cyfarfod Adra / CCG**

Cynhaliwyd cyfarfod adeiladol rhwng aelodau a swyddogion y Cyngor ac Uwch swyddogion Adra ar y 25ain o Dachwedd. Yn bresennol roedd y Cynghorydd Elin Walker Jones, fel Cadeirydd y Pwyllgor Iaith, a Gwenllian Williams, yr Ymgynghorydd Iaith. Cafwyd trafodaeth am y gofynion newydd ar gyfer asesiadau neu ddatganiadau iaith ar gyfer ceisiadau cynllunio dan y CCA newydd, a sut y gallai Adra fel un o brif ddatblygwyr y sir gyfrannu at y sylfaen tystiolaeth sydd ei angen wrth symud ymlaen. Cytunwyd y byddai'n fuddiol cael arweiniad clir a chryno gan yr Uned Iaith am y dystiolaeth sydd ei angen, ac adroddodd yr Ymgynghorydd Iaith ei bod eisoes yn gweithio ar hynny ac y byddai'n rhannu gyda'r swyddogion perthnasol yn y flwyddyn newydd. Yn ehangach na hynny, trafodwyd cyfleoedd cydweithio ar lefel gymunedol rhwng swyddogion cymunedol Adra a swyddogion Hunaniaith a Menter Iaith Bangor, a chodwyd cwestiwn am y gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer cefnogi dysgwyr a datblygu sgiliau iaith sydd yn gysylltiedig a'r gweithle.

**3. Diwrnod Hyrwyddo Hawliau**

Cymerodd y Cyngor ran yn Niwrnod Hyrwyddo Hawliau cyntaf Comisiynydd y Gymraeg ym mis Rhagfyr. Nod y diwrnod hwn oedd tynnu sylw trigolion at y gwasanaethau y mae posib iddynt eu cael gan gyrff drwy gyfrwng y Gymraeg – a hynny er mwyn ceisio eu hannog i ddefnyddio mwy o'r Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau. Crëwyd fideo byr a rannwyd hwnnw ar y cyfryngau cymdeithasol.

Rwyf ar ddeall bod ceisio cael mwy o bobl i ddefnyddio'r gwasanaethau sydd ar gael yn faes o ddiddordeb i'r Comisiynydd newydd hefyd, ac fe ddylem ni o fewn y Cyngor feddwl sut y gallwn wneud mwy o'r math yma o weithgareddau yn ystod y flwyddyn, er mwyn ceisio cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar gyfer ein gwasanaethau ein hunain.

**4. Lles Meddyliol a'r Gymraeg**

Mae Andrew Tamplin o gwmni Canna Consulting wedi bod yn cynnal gweithdai yn y Cyngor er mwyn tynnu sylw at bwysigrwydd edrych ar ôl ein lles meddyliol. Mae hwn yn faes sydd yn cael cryn sylw a blaenoriaeth yn ddiweddar, ac sydd yn un pwysig iawn o safbwynt ieithyddol gan ei bod yn hanfodol bod modd i unigolion gael cefnogaeth a gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg pan fyddant ei angen. Byddwn yn clywed mwy am

**5. Technoleg a'r Gymraeg**

Yn dilyn sgyrsiau diweddar am broblemau sydd yn codi wrth geisio cael systemau ac apiau sydd yn gweithio yn ddwyieithog, rwyf wedi anfon llythyr at Weinidog y Gymraeg yn gofyn am fwriadau Llywodraeth Cymru o ran datblygu defnydd o'r Gymraeg mewn technoleg. Mae ganddynt Gynllun Gweithredu Technoleg Gymraeg, ond ar hyn o bryd, nid ydym yn sicr beth sydd yn cael ei wneud i weithredu'r Cynllun hwnnw. Byddaf yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor wedi i ni dderbyn ymateb.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 Ionawr 2020** |
| **TEITL:** | **Trefniadau gweithio mewn sefyllfa ddwyieithog – Timau Adnoddau Cymunedol** |
| **AWDUR:** | **Meilys Heulfryn Smith**<br>**Arweinydd Rhaglen Trawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol (Gwynedd a Môn)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **Cyflwyno'r papur briffio a welir yn Atodiad 1 i sylw'r aelodau, er mwyn iddynt gael trafodaeth ar y materion a chynnig sylwadau a / neu argymhellion.** |

## 1. Cefndir

1.1 Yn unol â'r cyfeiriad strategol y mae Llywodraeth Cymru wedi'i osod yn y strategaeth 'Cymru Iachach', mae gwaith ar y gweill ar draws Gwynedd a Môn i wedd-newid y ffordd y bydd pobl yn cael mynediad i wasanaethau iechyd a gofal cymunedol.

1.2 Mae Timau Adnoddau Cymunedol yn cael eu sefydlu, sef timau o bobl sy'n darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymunedol. O fewn y timau, ceir swyddogion o'r cyngor a'r bwrdd iechyd, meddygon teulu a gwasanaethau gofal cychwynnol eraill, cynrychiolwyr o'r trydydd sector a darparwyr preifat.

1.3 Mae'r rhaglen drawsffurfio i sefydlu'r Timau newydd hyn yn eang a chymhleth ar sawl ystyr. Un o'r materion amlwg yw'r angen i sicrhau bod yr holl faterion perthnasol o ran darparu gwasanaethau mewn cyd-destun dwyeithog yn cael eu gwyntyllu a'u cyfarch yn briodol.

1.4 Yn Atodiad 1, fe welir Papur Briffio sy'n amlinellu'r prif faterion perthnasol o ran yr Iaith Gymraeg o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys materion yn ymwneud â hawliau dinasyddion, a materion yn ymwneud â'r her ymarferol o ddod â staff o sefydliadau gwahanol (sydd â'u polisïau ieithyddol mewnol eu hunain) at ei gilydd.

## 2. Ymateb i'r her

2.1 Fe welir o'r papur yn Atodiad 1 bod gwaith ar y gweill i ymateb i'r materion sy'n codi. Ers Hydref 2019, mae tîm wedi'i sefydlu i gefnogi'r gwaith trawsffurfio ar gyfer Iechyd a gofal cymunedol ar

draws Gwynedd a Môn, am gyfnod o flwyddyn a hanner. Mae hyn yn rhoi capasiti ychwanegol er mwyn symud y gwaith yn ei flaen.

2.2 Mae'r tîm trawsffurfio eisoes wedi cychwyn cydweithio gyda swyddogion iaith o Wynedd, Môn a'r Bwrdd Iechyd, a'r cam cyntaf yw sefydlu gwaelodlin o ran sgiliau iaith y gweithlu ym mhob ardal. Hefyd, mae cydweithio yn parhau â'r fforwm ar gyfer gweithredu gofynion Mwy na Geiriau.

2.3 Yn fuan yn ystod 2020, mae angen llunio rhaglen waith i fynd i'r afael â'r materion perthnasol.

3. **Yr hyn a geisir gan y Pwyllgor**

3.1 Mae cefnogaeth barhaus y Pwyllgor i'r agenda hon i'w chroesawu. Mae buddiannau amlwg iawn i'w cael o integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal ac nid oes neb yn dadlau yn erbyn hynny. O safbwynt ieithyddol, yr her fydd cynnal y diwylliant, y disgwyliadau a'r safonau y mae Cyngor Gwynedd wedi ymgyrraedd atynt dros y blynyddoedd diwethaf, o ystyried y bydd amrediad eang o sefydliadau yn cydweithio yn agos iawn.

3.2 Byddai'n fanteisiol derbyn sylwadau neu argymhellion gan y Pwyllgo. Yn benodol, a oes materion perthnasol y credir y dylid eu hystyried nad ydynt wedi eu cynnwys yn Atodiad 1? Hefyd, a oes gan y Pwyllgor farn gref ynglŷn â'r blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen waith sydd i'w llunio i ymateb i'r materion perthnasol?

# Trefniadau gweithio mewn sefyllfa ddwyieithog - Timau Adnoddau Cymunedol
# Papur briffio

## Cefndir

Mae Timau Adnoddau Cymunedol (TAC) yn cael eu sefydlu ar draws Gwynedd a Môn. Bydd aelodau'r timau hyn yn cael eu cyflogi gan wahanol sefydliadau, a phob sefydliad â'i drefniadau a'i weithdrefnau ei hun o safbwynt yr iaith Gymraeg.

Mae angen ystyried yr amrediad o faterion sy'n codi o ran cydweithio mewn awyrgylch ddwyieithog, a rhoi arweiniad cadarn i staff. Bydd sgôp y TAC yn ymestyn i gynnwys meddygon teulu, cyrff trydydd sector a darparwyr o wahanol sectorau. Fel cam cychwynnol, bydd y papur trafod hwn yn ystyried y materion sydd angen eu gwyntyllu o ran gweithlu Cyngor Gwynedd (y Cyngor) a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCU).

Noder hefyd bod yr un materion yn berthnasol i weithlu Cyngor Môn, ac y byddant yn cael eu trafod ag aelodau etholedig ac uwch swyddogion yno er mwyn sicrhau bod y cyd-destun strategol / polisi ieithyddol perthnasol yn cael ei ystyried.

## Cyd-destun

Ers blynyddoedd bellach, Cymraeg yw iaith weinyddol fewnol y Cyngor. Golyga hyn bod pob gohebiaeth a chyfathrebu mewnol yn Gymraeg yn unig (neu'n achlysurol yn ddwyieithog). Gan bod polisi recriwtio'r cyngor yn cefnogi'r polisi iaith hwn, mae'r staff (gydag eithriadau prin) yn deall Cymraeg. Mae polisi a gweithdrefnau BCU yn wahanol, ac er bod llawer o ohebiaeth yn ddwyieithog, nid oes rheidrwydd ar staff i ddeall a defnyddio'r Gymraeg wrth eu gwaith bob dydd wrth drafod a rhannu gwybodaeth â'u cydweithwyr.

Nid yn annisgwyl, rydym yn wynebu sefyllfa lle mae rhywfaint o densiynau yn codi ymysg staff. Mae amrediad o deimladau a safbwyntiau yn dod i'r amlwg – rhai yn teimlo eu bod wedi eu heithrio oherwydd nad ydynt yn deall cyfathrebu ar lafar sy'n digwydd o'u cwmpas, eraill yn teimlo bod eu hawliau i ddefnyddio'r Gymraeg yn simsanu oherwydd cyd-leoli â staff di-Gymraeg.

Mae Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau yn gosod disgwyliadau ar gynghorau a byrddau iechyd o ran gwneud y cynnig rhagweithiol a cheisio sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaethau yn yr iaith sy'n cyfarch eu hanghenion. Yn fwy diweddar, mae'r Safonau o dan Fesur yr Iaith 2011 yn gosod disgwyliadau ar sefydliadau unigol, ac mae'n rhaid cydymffurfio os am beidio torri'r gyfraith. Mae'r safonau ar gyfer y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd wedi eu cytuno.

## Materion sydd angen eu gwyntyllu

O fewn y cyd-destun uchod, mae nifer o faterion sydd angen rhoi sylw iddynt wrth ddatblygu'r Timau Adnoddau Cymunedol:

1. Proffil sgiliau iaith y staff a chynllunio i fedru cwrdd ag anghenion cymunedau, a chreu amgylchfyd gwaith sy'n cydymffurfio â hawliau a dyheadau ieithyddol staff
2. Cyfathrebu mewnol o fewn y timau – ar lafar, yn ysgrifenedig, yn electronig (a'r disgwyliadau ac ymarfer gorau)

3. Cofnodion cleifion / cleientiaid – protocolau ymarfer a disgwyliadau
4. Y cynnig rhagweithiol – cofnodi, rhannu a gweithredu ar angen iaith yr unigolyn
5. Disgwyliadau ehangach Mwy na Geiriau (er enghraifft, materion yn ymwneud â chomisiynu gwasanaethau)
6. Materion sydd angen sylw i gyfarch gwahaniaethau o ran polisi iaith y Cyngor / BCU, ac effaith hyn ar y gweithlu a'r cyhoedd
7. Cyfrifoldebau am gwrdd â gofynion cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd, yn cynnwys adnoddau a chostau
8. Yr angen posib am gael llysgenhadon iaith i'r timau, a rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant
9. Y Safonau Iaith a disgwyliadau Comisiynydd y Gymraeg – deall y gofynion ar y ddau sefydliad, ac ystyried unrhyw her all godi oherwydd gwahanol ddisgwyliadau
10. WCCIS (Welsh Community Care Information System) a'r Gymraeg – hon yw'r system sydd wedi ei phrynu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rheoli cofnodion iechyd a gofal cymunedol ar draws Cymru.

## Cyfundrefnau sy'n bodoli i gefnogi'r maes

### Y Cyngor

O fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, mae rheolwr sy'n gyfrifol am gydlynu gweithgaredd o fewn y Cyngor i gwrdd â gofynion Mwy na Geiriau. Mae'r rheolwr hwn hefyd yn aelod o'r Fforwm Mwy na Geiriau Rhanbarthol (sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o BCU ac o'r cynghorau eraill).

Yn ogystal, ceir cefnogaeth wrth weithredu polisi iaith y Cyngor a datblygu sgiliau neu weithdrefnau perthnasol gan dîm iaith corfforaethol.

### BCU

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grŵp Rheoli Prosiect (ar draws Gogledd Cymru) i weithredu ar y Safonau Iaith a Mwy na Geiriau. Mae gan y grŵp hwn raglen waith fanwl. Y mae Swyddog Cydymffurfio Safonau wedi ei phenodi o fewn BCU.

Ar y grŵp hwn y mae arweinyddion o'r 3 is-ranbarth o fewn y Gogledd. Mae'r Cyfarwyddwr Ardal yn cynrychioli'r Gorllewin. Hefyd, y mae arweinyddion o'r Tîm Rheoli Ysbyty, Gofal Eilaidd ac o broffesiynau gwahanol yn rhan o'r grŵp.

Mae 'Cynllun Strategol yr Iaith Gymraeg 2016-2019' wedi ei gymeradwyo gan Bwyllgor Strategaeth, Partneriaeth ac Iechyd y Boblogaeth BCU. Mae'r Pwyllgor hwn yn is-grŵp o Fwrdd Gweithredol BCU. O fewn y Cynllun Strategol, y mae 3 Bwriad Strategol a 9 Ffrwd Gwaith.

## Gwaith sydd eisoes ar y gweill

Mae'n werth tynnu sylw at ddarnau penodol o waith sydd eisoes yn digwydd, neu wedi digwydd yn ddiweddar:

- Mae un o'r ffrydiau gwaith gan BCU i weithredu'r Cynllun Strategol uchod yn edrych ar gynllunio'r gweithlu, gyda'r bwriad o weithredu'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog. Yn ddiweddar iawn, mae gwaith wedi'i gychwyn i fapio'r gweithlu o fewn TAC ar draws sectorau, a'r cam nesaf fydd dadansoddi sgiliau iaith y staff fesul sector ac ardal ddaearyddol
- Ceir Swyddog Cefnogi Iaith o fewn BCU, a Chynllun Hyfforddi Iaith. Gydag arian gan Lywodraeth Cymru o dan y cynllun 'Cymraeg Gwaith', mae swyddog arall wedi ei benodi i gefnogi'r Swyddog hwn

- Mae BCU wedi llunio polisi mewnol o'r enw 'Health Board Wide Procedure for Using Welsh Internally'. Mae'r ddogfen hon yn ystyried cyfathrebu corfforaethol – er enghraifft, mae'n nodi y dylai pob gwybodaeth sy'n cael ei rhannu â holl staff y Bwrdd Iechyd fod yn ddwyieithog
- Yn lled ddiweddar, mae cydweithio effeithiol wedi bod rhwng tîm Derwen (Plant Anabl a Sâl) a thîm yr iaith BCU. Canlyniad y gwaith oed llunio Canllawiau Iaith ar gyfer y tîm. Mae modd rhannu copi o'r canllawiau hyn.

## Trefniadau cyfieithu

Dyma'r hyn rydym yn ei wybod am drefniadau cyfieithu:

BCU – cyfieithu ysgrifenedig yn fewnol yn bennaf (heb godi ffi). Prynu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r tu allan.

Y Cyngor – cyfieithu ysgrifenedig a chyfieithu ar y pryd yn fewnol, ond prynu gwasanaeth o'r tu allan pan fo'r capasiti mewnol yn annigonol. Dim ffi yn cael ei godi am waith mewnol, ond codi tâl am waith ar gyfer partneriaethau (er enghraifft, byddai gwaith ar ran TAC yn ffitio i'r categori hwn). Mae manylion am y ffioedd ar gael ar Fewnrwyd y Cyngor.

## WCCIS a'r Gymraeg

Mae ffrwd gwaith yn bodoli yn genedlaethol ar gyfer sicrhau bod WCCIS, y system cofnodi achosion gofal ac iechyd cymunedol genedlaethol newydd, yn gwbl ddwyieithog. Ar hyn o bryd, mae'r Grŵp Arweinyddiaeth sy'n arwain WCCIS yn genedlaethol wedi penderfynu na ddylid bwrw ymlaen â'r gwaith oedd wedi ei gynllunio, ond mae hyn yn cael ei herio.

Mae datrysiad technegol yn bodoli allai sicrhau bod modd i'r holl wybodaeth sefydlog o fewn y system fod yn gwbl ddwyieithog. Mae grŵp o arbenigwyr technegol wedi cadarnhau eu bod yn fodlon â'r datrysiad.

Yn sgîl diffyg blaenoriaeth genedlaethol i fwrw ymlaen â'r gwaith, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi llwyddo i ddenu arian grant trawffurfio a ddaeth yn sgîl strategaeth 'Cymru Iachach', er mwyn datblygu rhestrau safonol o dermau ym maes Iechyd a Gofal. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gomisiynu yn ystod Ionawr 2020.

## Cofnodi a rhannu dewis (neu 'angen') iaith

Dros y misoedd diwethaf, y mae cyfres o gyfarfodydd grŵp tasg wedi eu cynnal gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, i drafod sut y gellid cofnodi a rhannu dewis iaith unigolion yng Nghymru. Roedd y grŵp yn edrych ar draws pob maes a phob sector (nid y sector gofal ac iechyd yn unig). Roedd yr Arweinydd Rhaglen Trawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol (Gwynedd a Môn) yn aelod o'r grŵp hwn. Mae adroddiad wedi'i baratoi sy'n cynnig argymhellion ynglŷn â'r ffordd ymlaen.

## Cofnodi Testun Rhydd

Mae cofnodi testun rhydd mewn iaith sydd naill ai a) yn wahanol i'r iaith y nodwyd y manylion yn wreiddiol neu b) mewn iaith nad yw pawb sydd ynghlwm â gofal clinigol / gofal cymdeithasol rhywun yn medru ei deall â'r potensial i gyflwyno risg i les unigolion. Yn naturiol, mae hyn yn codi cwestiynau o ran sut y dylid ymdrin â sefyllfaoedd lle mae staff a / neu bobl sydd angen gwasanaethau yn ddwyieithog.

Yn dilyn trafodaeth o fewn Bwrdd Partneriaeth yr Iaith ym maes Iechyd a Gofal (Bwrdd gweinidogol), mae grŵp tasg wedi ei sefydlu i lunio egwyddorion ymarfer da yn genedlaethol ar y pwnc yma. Caiff y grŵp ei gadeirio gan Uwch Was Sifil o Lywodraeth Cymru. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Iaith, a'r Arweinydd Rhaglen Trawsffurfio Iechyd a Gofal Cymunedol (Gwynedd a Môn) yn aelodau o'r grŵp hwn. Bydd adroddiad ar waith y grŵp yn cael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2020.

Mae'n werth nodi bod astudiaethau achos o fewn Gwynedd wedi eu gwneud i gynorthwyo gyda gwaith y grŵp tasg hwn. Edrychwyd ar drefniadau cydweithio mewn 3 tîm Iechyd a Gofal (ym meysydd Plant, Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl), lle mae staff o'r Cyngor a BCU wedi'u lleoli yn yr un swyddfa. Yr hyn a welwyd, yn gryno, oedd bod y gweithlu yn canfod datrysiadau rhesymegol eu hunain i ymateb i'r sefyllfa benodol a'r anghenion o safbwynt y cleient neu'r claf. Gwelwyd hefyd bod llawer o waith cyfieithu yn digwydd ar lafar ac yn ysgrifenedig o fewn y timau, a hynny wedi dod yn rhan annatod o'r gwaith dydd-i-ddydd.

## Cloi / Crynhoi

Mae'r papur byr hwn yn amlygu mor eang yw'r materion i'w trafod yng nghyd destun sefydlu trefniadau gweithio'n ddwyieithog rhwng y Cyngor a BCU. Fe welir hefyd bod gwahanol grwpiau, yn lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, yn trafod a cheisio datrys rhai o'r materion dan sylw.

Mae angen gwaith pellach i gytuno ar y gwaith angenrheidiol, adnabod y blaenoriaethau a sefydlu trefniadau o fewn y TAC.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **16 Ionawr 2020** |
| **TEITL:** | **Adroddiad Canmoliaeth a Chwynion maes y Gymraeg** |
| **AWDUR:** | **Gwenllian Mair Williams**<br><br>**Ymgynghorydd Iaith** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am gwynion ac engreifftiau o lwyddiant wrth hybu defnydd o'r Gymraeg yng ngwasanaethau'r Cyngor. |

**Llwyddiannau i hybu'r Gymraeg a sicrhau gwasanaethau Cymraeg i drigolion:**

Ers y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Iaith amlygwyd sawl enghraifft o gydweithio da er mwyn hybu'r Gymraeg:

- **Defnyddio'r Gymraeg yn y maes Gofal**

Mae'r cydweithio rhwng y swyddogion iaith a swyddogion y gwasanaeth Oedolion yn parhau i fynd yn dda, a'r sesiynau ymwybyddiaeth iaith i weithwyr gofal newydd bellach yn rhan sefydlog o'r dyddiau anwytho sydd yn cael eu trefnu gan swyddogion datblygu gweithlu'r adran Oedolion. Rydym wedi bod yn cael adborth cadarnhaol iawn o'r sesiynau, gyda sawl aelod o staff yn mynd ymlaen i ofyn am gyrsiau dysgu. Dyma gwpl o ddyfyniadau o'r sesiwn ddiweddaraf:

*"More of an understanding why language awareness is important between Service users and staff"*

*"Really positive, useful and inspiring to try and use more Welsh in every day life as well as work"*

Cafwyd cryn sylw ar y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar hefyd i aelodau o staff o gartref gofal y Cyngor yn Nefyn, wedi iddynt fynd ati i ddysgu'r Gymraeg er mwyn gallu cynnig y gwasanaeth gorau i'w preswylwyr. Mae hwn yn enghraifft o'r cydweithio da rhwng y Cyngor a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fel darparwyr yr hyfforddiant.

https://dysgucymraeg.cymru/newyddion/staff-cartref-gofal-yn-nefyn-yn-dysgu-cymraeg-i-gefnogi-r-preswylwyr/

- **Rhannu arfer dda a chynghori**

Derbyniwyd canmoliaeth gan Aelod yn y cyfarfodydd herio perfformiad mewnol diweddar gan ei fod wedi clywed am barodrwydd y Cyngor i gydweithio a rhoi cyngor i'r Bwrdd Iechyd lleol wrth i'r sefydliad hwnnw baratoi i gydymffurfio a gweithredu'r Safonau iaith.

**CWYNION ac YMHOLIADAU AM WASANAETH NEU YN YMWNEUD Â PHOLISI IAITH Y CYNGOR**

| Adran | Nifer y Cwynion | Mater yr oedd y gwyn yn ymwneud ag o | Camau a gymerwyd |
|---|---|---|---|
| **Priffyrdd** | **5** | 1. Arwydd gyda gwall yn y Gymraeg ar gefn fan o eiddo'r Cyngor (CI1906) | Dim cadarnhad wedi ei dderbyn os gafodd y mater ei ddatrys. |
| | | 2. **3 cwyn** (CI1909) (CI1912) (CI1916) –am gwmni gwaith ffordd (Colas) yn dosbarthu taflenni a defnyddio arwyddion uniaith Saesneg. 2 gwyn am waith yng Nghaernarfon | Ni chafodd y mater ei ddatrys ar ôl y gwyn gyntaf, ond erbyn yr ail a'r trydydd roedd camau ar droed i ddatrys.<br>Uned iaith wedi gwirio cymalau'r cytundeb gyda'r Swyddogion Categori. Doedd dim problem gyda'r rheiny felly roedd angen i'r adran gysylltu gyda'r cwmni i dynnu sylw at y tor cytundeb, ac yn gofyn iddynt newid yr arwyddion a sicrhau gohebiaeth ddwyieithog o hyn ymlaen.<br>Yr Adran wedi cysylltu efo'r cwmni ac wedi cael esboniad o'r sefyllfa ac addewid i gydweithio i sicrhau na fydd yn digwydd eto. |
| | | 3. Arwyddion ffordd Pen Llyn(CI1910) - Hell's Mouth a Whistling Sands | Ymateb wedi ei anfon gan y gwasanaeth yn dweud y byddant yn edrych ar y mater. Angen cadarnhad bod camau pellach wedi eu cymryd. Hefyd angen esboniad pam bod yr enwau Saesneg yn cael eu defnyddio yn y lle cyntaf? |
| | | 1. Ogwen Bank Caravan Park - arwyddion uniaith | Yr arwyddion dan sylw yn destun amodau caniatâd Cynllunio felly yr Adran Gynllunio yn gyfrifol am |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynllunio** | **3** | Saesneg yn Bethesda (CI1908) | gysylltu efo'r cwmni iddynt newid yr arwyddion.<br><br>Mae'r arwyddion bellach yn cynnwys y Gymraeg, ond mae'r Saesneg yn dal yn fwy amlwg, felly nid oedd yn ddatrysiad delfrydol. |
| | | 2. Arwydd Nature's Point, Pistyll (CI1911) | Doedd dim y gellir ei orfodi o dan amodau cynllunio gan nad oes rheidrwydd i newid "enw cwmni" ar arwyddion. Roedd y cwmni dan sylw wedi newid enw yn ddiweddar, ac wedi gosodd arwydd newydd oedd wedi gwneud y Saesneg yn fwy amlwg. |
| | | 3. Cyfeiriadau Saesneg yn cael eu defnyddio mewn gohebiaeth am geisiadau cynllunio (CI1917) | Gwall yn y system newydd sy'n cael ei defnyddio gan Cynllunio yn golygu ei fod yn cyfeirio at gronfa ddata gyfeiriadau Saesneg yn awtomatig.<br><br>Hyn bellach wedi ei gywiro. |
| **Addysg** | **2** | 1. Cwyn nad ydi ap SchoolGateway ar gael yn Gymraeg, ac nad yw y fersiwn ar-lein a ddefnyddir gan y Cyngor yn ddigon hygyrch. (CI1913) | Hysbysu'r achwynydd bod modd cael mynediad i'r Porth drwy ap Gwynedd ar ffôn symudol.<br><br>Yr adran yn dal i geisio gweithio gyda'r cwmni i sicrhau bod yr ap yn cael ei ddatblygu yn Gymraeg. |
| | | 2. Cwyn am broses gyfweld, a bod yr achwynydd yn teimlo eu bod wedi cael eu rhoi dan anfantais gyda chyfweliad yn cael ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg. Cwyn nad oedd y gofynion iaith na'r wybodaeth bod y | Cadarnhawyd bod y swyddogion oedd yn gyfrifol am y cyfweliad wedi dilyn y protocol cywir ac wedi rhoi cynnig i'r unigolyn barhau gyda'r cyfweliad yn Saesneg.<br><br>Mae bwriad i edrych yn fanylach ar ddogfennaeth y broses benodi, ac unrhyw angen i addasu fel rhan o |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyfweliad i gael ei gynnal yn Gymraeg yn ddigon clir yn y ddogfennaeth. (CI1914) | waith Bwrdd Prosiect y Dynodiadau Iaith. |
| **Ymgynghoriaeth** | **1** | Camgymeriadau (gramadegol) ar arwyddion strydoedd ystâd newydd Goetre Uchaf (CI1915) | Cadarnhad wedi ei dderbyn bod arwyddion newydd wedi eu harchebu ac y bydd y datblygwyr yn gosod yr arwyddion cyn gynted a phosib. |